# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020

Amser: 09.15 - 11.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6549

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | David Jones, Cymwysterau Cymru<br>Philip Blaker, Cymwysterau Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Laura Jones AS a Hefin David AS. Nid oedd neb yn dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019 - 2020

2.1 Holodd y Pwyllgor Gymwysterau Cymru ynghylch ei Adroddiad Blynyddol.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at y Gweinidog Addysg ynglŷn â materion sy'n codi o gyfarfod y Pwyllgor gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 12 Tachwedd.**

**3.2 Gwybodaeth ychwanegol gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) yn dilyn y cyfarfod ar 19 Tachwedd**

**3.3 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Cynllun Hawliau Plant diwygiedig**

**3.4 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Lywodraeth Cymru ynghylch Cymorth i iechyd meddwl a llesiant dysgwyr**

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod cyfan ar 10 Rhagfyr.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019 – 2020: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 6 Hawliau Plant yng Nghymru – trafod adborth gan dystion ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

6.1 Nododd y Pwyllgor ymateb y tystion a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i dynnu ei sylw at ymatebion y rhanddeiliaid, ac i ofyn am ragor o wybodaeth cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

## 7 COVID-19 – ystyried sut y dylid ymgysylltu â myfyrwyr prifysgol

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull o weithredu.